



Polisi E-WAL

Dyddiad Cymeradwyo a Dyddiad Adolygu
Date Approved and Review Date

*Gweler Cynllun Adolygu Polisiau
See Policy Review Timetable*

Polisi S/CIY/E/WAL: YSGOL DYFFRY CONWY

1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae addysgu, dysgu, cyflwyniadau, agweddau a lles yr holl ddisgyblion yn bwysig I ni yma yn Ysgol Dyffryn Conwy. Byddwn yn annog yr holl ddisgyblion I gyflawni'r safonau uchaf posibl. Byddwn yn gwneud hyn drwy ystyried profiada bywyd ac anghenion pob disgybl.
- 1.2 Mae'r ysgol yn cydnabod y bydd disgyblion o leiafrfioedd ethnig yn cael mynediad llawn I fywyd yr ysgol wrth gadw gafael ar ddiwylliant eu hunain.
- 1.3 Mae'r ysgol yn cefnogi hawl y disgybl sy'n dysgu Saesneg a/neu y Gymraeg fel iaith Ychwanegol I ddisgu a chyflawni yn y Saesneg (a neu y Gymraeg) ac I gynnal a datblygu eu hiaith gyntaf.
- 1.4 Mae gan ddisgyblion sy'n dysgu Saesneg (a/neu Cymraeg) fel iaith Ychwanegol y sgiliau a'r wybodaeth am iaith yn debyg I ddisgyblion uniaith. Efallai y bydd eu gallu I gymryd rhan yn y cwricwlwm llawn yn fwy dablyugiedig na'r sgiliau cyfathrebu Saesneg (a/neu Cymraeg) sydd ganddynt.

2. Nodau ac Amcanion

- 2.1 Mae'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn gwricwlwm sydd gan yr holl ddisgyblion hawl iddo. Byddwn yn hyrwyddo egwyddorion tegwch a chyflawnder i bawb drwy'r addysgu a byddwn yn ei ddarparu.
- 2.2 Nod y polisi hwn yw ceisio sicrhau ein bod yn bodloni holl anghenion y disgyblion hynny sy'n dysgu Saesneg (a/neu Cymaraeg) fel iaith Ychwanegol. Gweneir hyn yn unol ag agnehon y Ddeddf Cysylltiadau Hjiliol 1976 a'r Ddeddf Cysylltiadu Hiliol Diwygiedig 2000.

3. Arddull Dysgu ac Addysgu

- 3.1 Yn ein hysgol, hysbysir yr athrawon am iaith a diwylliant y disgyblion a byddant yn cydnabod gwerth y pethau hyn.
- 3.2 Bydd athrawon yn defnyddio strategaethau gyda disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith Ychwanegol drwy:
 - Sicrhau bod y gwaith geirfa yn delio ag ystyr technegol ac ystyr bob dydd y geiriau allweddol, trosiadau ac idioma.
 - Egluro sut bydd siarad ac ysgrifennu yn Saesneg (a/neu Cymraeg) wedi'i strwythuro at ddibenion gwahanol ar draws amrywiaeth o bynciau cwricwlwm.
 - Darparu amrywiaeth o ddeunydd darllen sy'n tynnu sylw at y gwahanol ffyrdd y defnyddir Saesneg (a/neu Cymraeg).
 - Sicrhau bod cyfleoedd effeithiol yn bodoli i siarad ag y defnyddir y gwaith llafar i gefnogi'r gwaith ysgrifenedig.
 - Annog disgyblion i drosglwyddo eu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth o un iaith i'r llall.

- Adeiladu ar brofiadau'r disgyblion o iaith yn y cartref ac yn y gymuned ehangach er mwyn i'r datblygiad o Saesneg (a/neu Cymraeg) fel iaith, yn ogystal ag ieithoedd eraill, gynorthwyo'r naill a'r llall.
- Darparu cymorth drwy TGCh, fideo neu ddeunyddiau gweledol a geiriaduron.
- Darparu cyfieithwyr, darllenwyr ac ysgrifennydd ble bo hynny'n bosib.
- Gwneud trefniadau priodol efo byrddau arholi ar gyfer cael mynediad priodol i unrhyw drefniadau mynediad priodol, a sicrhau cyfleoedd i astudio'i pwnc cyntaf ar lefel priodol e.e. TGAU, AS neu Lefel A.

Asesu: Asesiad Cychwynol a Monitro Cynnydd

Gweithredwn drefniadau Asesu ar gyfer disgyblion SCiY yn unol ac arweiniad Asesu Cenedlaethol. Yn dilyn y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Statudol o Fedi 2013, byddwn yn gweithredu y fframweithiau yn berthnasol i asesiad o allu ieithyddol a rhifyddol y disgybl ac yn gweithredu cynllun dysgu unigol sydd yn adlewyrchu man cychwyn a camau nesaf dysgu y disgyblion. Defnyddiwn dull asesu 5 Cam LLC ar gyfer asesiad cychwynol a monitro cynnydd disgyblion SCiY (Gweler Atodiad 1).

Defnyddiwn atodiadau 2, 3 a 4 er mwyn casglu gwybodaeth angenrheidiol am y disgyblion fel man cychwyn (atodiad 1), llunio Cynllun Iaith Unigol i ddisgyblion (atodiad 2) a Ffurflen Cofrestru disgybl SIY (atodiad 3)

Gweithredu y polisi:

Gweithredwn y polisi mewn ymgynghoriad a'r gwasanaeth cefnogi SIY Sirol (Dinbych a Chonwy) er mwyn sicrhau ein bod yn ymwybodol o unrhyw ddatblygiadau newydd ac yn sicrhau trosglwyddo effeithiol i'r disgybl i'r ysgol.

Mae'r Cydlynnydd ADY yn monitro ar gynnydd y disgyblion SCiY fel rhan o'r drefn fonitro cynnydd gwahanol grwpiau o ddisgyblion. Cynnhwysir arfarniad o'u cynnydd a'u safonau yn yr HA Ysgol Gyfan blynyddol a cynllunir ar eu cyfer o fewn cynlluniau gweithredu ADY ac Ysgol Gyfan fel ymateb i'r Hunan Arfarnu.

Adolygwn anghenion hyfforddiant yn flynyddol fel rhan o weithdrefnau DPP yr ysgol gan gynllunio i gynnwys hyfforddiant fel modd o ymateb i canfyddiadau arfarnu'r maes.

Cymeradwywyd y Polisi gan y Corff Llywodraethol: Tachwedd 2014

ATODIAD 1: ASESIAID 5 CAM SIY

ATODIAD 2: CYNLLUN IAITH DISGYBL SIY

ATODIAD 3: FFURFLEN COFRESTRU DISGYBL SIY

ATODIAD 4: SIY o fewn y Fframwaith Arolygu Cyffredin a Hunan Arfarnu Ysgol Gyfan

ATODIAD 1: Model 5 Cam o Saesneg fel Ail Iaith Ychwanegol – Disgrifiadau Cyffredinol

Nodiadau er arweiniad

- ◆ Mae disgyblion yn gwneud cynnydd mewn dysgu Saesneg fel Ail Iaith ychwanegol mewn gwahanol ffyrdd ac mae rhai'n dysgu'r iaith yn gynt na'i gilydd. Rhestrir y camau bras yn y datblygiad hwn isod fel disgrifiadau i'w defnyddio ar y **sail 'mwyaf addas'** mewn dull tebyg i'r disgrifiadau lefel Cwricwlwm Cenedlaethol. Gall gwneud cynnydd o gam A i gam E gymryd hyd at 10 mlynedd ac mae'n debygol y bydd unigolion yn dangos nodweddion mwy nag un 'cam' ar y tro. Fel arfer, mae angen dyfarnu pa gam sy'n disgrifio datblygiad iaith unigolyn orau, gan gymryd oedran, gallu a faint o amser a dreulir yn dysgu Saesneg, i ystyriaeth.

Cam A – Mae Saesneg yn iaith newydd sbon iddynt

Gall y byddant yn defnyddio mamiaith ar gyfer dysgu ac at ddibenion eraill. Gall y byddant yn aros yn hollol ddistaw yn yr ystafell ddosbarth. Efallai eu bod yn copïo/ail-adrodd rhai geiriau neu ymadroddion. Efallai eu bod yn deall rhai ymadroddion Saesneg a ddefnyddir bob dydd ond efallai nad oes ganddynt fawr o afael ar neu nad ydynt yn llythrennog o gwbl yn Saesneg. **Angen llawer o gefnogaeth SIY.**

Cam B – Dechrau dysgu ail iaith yn gynnar

Gall y byddant yn dilyn cyfathrebu cymdeithasol o ddydd i ddydd trwy gyfrwng y Saesneg a chymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu gyda chefnogaeth. Dechrau defnyddio Saesneg llafar at ddibenion cymdeithasol. Efallai yn deall cyfarwyddiadau syml a dilyn naratif/disgrifiadau gyda chefnogaeth gweledol. Efallai y datblygwyd medrau penodol mewn darllen ac ysgrifennu. Efallai wedi ymglyfarwyddo â geirfa'n ymwneud â phynciau penodol. **Dal angen cefnogaeth SIY sylweddol er mwyn cael at y cwricwlwm.**

Cam C – Datblygu Medr

Efallai'n cymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu yn gynyddol annibynnol. Gall fynegi ei hun ar lafar yn Saesneg, ond diffyg cywirdeb adeileddol yn dal yn amlwg. Bydd angen cefnogaeth barhaus ar gyfer llythrennedd, yn enwedig ar gyfer deall testun ac ysgrifennu. Efallai'n gallu dilyn cysyniadau haniaethol a Saesneg ysgrifenedig mwy cymhleth. **Angen cael cefnogaeth barhaus gydag SIY er mwyn cael mynediad llawn i'r cwricwlwm.**

Cam D – Gwybodaeth ddigonol

Bydd Saesneg llafar yn datblygu'n dda, gan alluogi cymryd rhan yn llwyddiannus mewn gweithgareddau traws-gwricwlaidd. Gall ddarllen a deall ystod eang o destunau. Gall bod diffyg cymhlethdod mewn Saesneg ysgrifenedig ac y ceir tystiolaeth achlysurol o wallau o ran strwythur. Angen peth cefnogaeth i gael at awgrymiadau cynnil o ystyr, mireinio'r defnydd o'r Saesneg, a datblygu geirfa haniaethol. **Angen peth cefnogaeth/cefnogaeth achlysurol SIY er mwyn cael at ddeunydd a thasgau cwricwlwm cymhleth.**

Cam E – Rhugl

Gall weithredu ar draws y cwricwlwm nes cael meistrolaeth sy'n gyfwerth â meistrolaeth disgybl mae Saesneg yn famiaith iddynt. **Gweithredu heb gefnogaeth SIY yn draws-gwricwlaidd.**

MODEL 5 CAM O SAESNEG FEL AIL IAITH YCHWANEGOL – deunydd cefnogol

CAM A (Mae Saesneg yn newydd iddynt)	CAM B (Dysgu'n gynnar)	CAM C (Datblygu Medr)	CAM D (Gwybodaeth ddigonol)	CAM E (Rhugl)
SIARAD A GWRANDO				
<ul style="list-style-type: none"> ◆ Cyfnod tawel ◆ Copio/ail-adrodd rhai geiriau ac/neu ymadroddion ◆ Defnyddio geiriau unigol neu ymadroddion byr ◆ Ystod sylfaenol, cyfyngedig iawn o eirfa ◆ Deall ymadroddion pob dydd a chyfarwyddiadau syml yn y Saesneg 	<ul style="list-style-type: none"> ◆ Defnyddio Saesneg ar lafar at ddibenion 'cymdeithasol' ◆ Gwybodaeth gyfyngedig o ran cystrawen gramadeg ◆ Geirfa'n ehangu ond yn dueddol o ymwneud â chyd-destunau cyfarwydd ◆ Yn meistroli geirfa sy'n ymwneud yn benodol â thestunpwn ◆ Dilyn cyfathrebu cymdeithasol dydd i ddydd trwy gyfrwng y Saesneg ◆ Deall cyfarwyddiadau syml ◆ Dilyn narratif/ disgrifiadau gyda chymorth gweledol 	<ul style="list-style-type: none"> ◆ Defnyddio Saesneg ar lafar yn hyderus ond gwallau strwythurol yn dal yn amlwg ◆ Meddu ar eirfa gweddol eang sy'n cynnwys cronfa gynyddol o eiriau sy'n gysylltiedig yn benodol â phwnc ◆ Ymateb yn briodol i ystod ehangach o sefyllfaoedd heb fod angen cymorth gweledol ◆ Gallu dilyn mewnbyn ar lafar mwy cymhleth 	<ul style="list-style-type: none"> ◆ Mynegiant yn fwy cymhleth a'r rhan fwyaf yn dangos ymwybyddiaeth a defnydd priodol o reolau gramadeg a threfn geiriau gyda llai o wallau ◆ Meddu ar eirfa eang a mwy o ddefnydd o eiriau haniaethol ◆ Rhai bylchau o ran geirfa yn dal yn amlwg ◆ Fel arfer yn ymdopi ag ystod eang o fewnbwn ar lafar o sawl ffynhonnell 	<ul style="list-style-type: none"> ◆ Yn siarad Saesneg yn rhugl mewn ystod llawn o sefyllfaoedd
DARLLEN				
<ul style="list-style-type: none"> ◆ Ychydig iawn o lythrennedd neu'n hollol anlythrennog mewn Saesneg 	<ul style="list-style-type: none"> ◆ Ymdopi â geiriau/patrymau geiriau cyfarwydd a gallu canfod ystyr sylfaenol o destun cyfarwydd 	<ul style="list-style-type: none"> ◆ Darllen yn ddigonol ond caiff anhawster i ddehongli testunau cymhleth sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm 	<ul style="list-style-type: none"> ◆ Darllen a deall amrywiaeth eang o destunau ond yn cael anhawster gydag awgrymiadau cynnil o ystyr 	<ul style="list-style-type: none"> ◆ Yn darllen Saesneg yn rhugl mewn ystod eang o sefyllfaoedd
YSGRIFENNU				
<ul style="list-style-type: none"> ◆ Ychydig iawn o lythrennedd neu'n hollol anlythrennog mewn Saesneg 	<ul style="list-style-type: none"> ◆ Gallu cynhyrchu symiau bychan o ysgrifennu annibynnol gyda chefnogaeth athrawon/cyfoedion ◆ Gwybodaeth o ramadeg yn gyfyngedig ◆ Defnyddio atalnodi sylfaenol, e.e. priflythrennau ac atalnodau llawn ◆ Yn dod yn ymwybodol o batrymau sillafu syml ◆ Defnyddio geirfa sylfaenol 	<ul style="list-style-type: none"> ◆ Yn anelu at sicrhau darnau o ysgrifennu sydd wedi eu datblygu fwy ar gyfer ystod o ddibenion ◆ Dangos ymwybyddiaeth gynyddol o ramadeg ond yn dal i wneud camgymeriadau ◆ Yn gyffredinol yn defnyddio atalnodi sylfaenol yn gywir, e.e. priflythrennau, atalnodau llawn, gofynodau a dengys ymwybyddiaeth o ystod ehangach o atalnodi ◆ Yn sillafu ystod ehangach o eiriau'n well ◆ Yn datblygu ystod ehangach o eirfa 	<ul style="list-style-type: none"> ◆ Yn ysgrifennu'n bur dda ar gyfer ystod o ddibenion ◆ Nid yw'r ysgrifennu ond yn cynnwys gwallau achlysurol o ran gramadeg ◆ Yn gyffredinol, yn defnyddio ystod ehangach o atalnodi brawddeg (comas, collnodau, dyfynodau) a dyfeisiau trefniadaethol yn fanwl-gywir ◆ Yn sillafu'r rhan fwyaf o eiriau yn gywir ◆ Yn defnyddio ystod eang o eirfa 	<ul style="list-style-type: none"> ◆ Yn ysgrifennu Saesneg yn rhugl mewn ystod llawn o sefyllfaoedd
<ul style="list-style-type: none"> ◆ Angen cefnogaeth SIY sylweddol 	<ul style="list-style-type: none"> ◆ Angen cefnogaeth SIY sylweddol er mwyn cael at y cwricwlwm 	<ul style="list-style-type: none"> ◆ Angen cefnogaeth SIY parhaus er mwyn cael at y cwricwlwm yn llawn 	<ul style="list-style-type: none"> ◆ Angen peth cefnogaeth/yn achlysurol SIY er mwyn gallu cael at ddeunydd cwricwlwm a thasgau cymhleth 	<ul style="list-style-type: none"> ◆ Gweithredu heb gefnogaeth SIY yn draws-gwricwlaidd

ATODIAD 2: RHAGLEN IAITH SIY / EAL LANGUAGE PROGRAMME

Enw/Name _____ BI/Yr _____ Athro Dosbarth/Class Teacher _____

Athro SIY/EAL Teacher _____ Dyddiad Gosod Rhaglen/Programme Set Up Date ___/___/___

Lefelau yn ol y 5 Cam SIY / EAL 5 Stage Levels

Gwranddo a Siarad/ <i>Speaking and Listening</i>		Darllen <i>Reading</i>		Ysgrifennu <i>Writing</i>	
---	--	---------------------------	--	------------------------------	--

TARGEDAU TARGETS	GWEITHGAREDD ACTIVITY	ADNODDAU RESOURCES	AMLDER FREQUENCY	PWY? WHO?	LLWYDDIANT? $\sqrt{x} P$ ACHIEVED? $\sqrt{x} P$	DYDDIAD DATE
Siarad a gwranddo <i>Speaking and listening</i>						
Darllen <i>Reading</i>						
Ysgrifennu <i>Writing</i>						

I'w adolygu/Review date _____ Arwyddwyd / Signed _____ Athrawes / Teacher

Arwyddwyd/Signed _____ Rhiant/Parent

Adolygwyd/ Reviewed: ___/___/___
Llofnod/ Signature: _____

ATODIAD 3: COFRESTR DISGYBLION SYDD A SAESNEG FEL IAITH YCHWANEGOL

Gwybodaeth am y plentyn:

Enw llawn y disgybl: _____

Enw dewisol y disgybl: _____

Dyddiad geni: __/__/__ Man geni: _____ Rhyw: b / m

Dyddiad cyrraedd DU __/__/__ Dyddiad Mynediad Ysgol: __/__/__

Blwyddyn addysgol: _____

Addysg flaenorol gan gynnwys ysgolion y tu allan i'r DU:

[*amser, pynciau, cyrhaeddiad/cymwysterau, iaith addysgol, hoff bynciau, absenoldebau estynedig ...*]

Gwybodaeth gefndirol:

Manylion rhieni/gofalwyr:

Ydy'r plentyn yn byw efo'r ddau riant? Ydy / Nag ydy

Enw'r tad:

Enw'r fam:

neu

Enw gofalwyr:

Iaith cyfathrebu a'r cartref:

Cyswllt cyntaf:

Angen cyfieithydd i gyfathrebu? Oes / Nag oes

Grŵp ethnig: _____

Crefydd: _____

Pa achlysuron crefyddol mae'r teulu yn eu dathlu?

Oes unrhyw waharddiadau i'w ystyried oherwydd crefydd/diwylliant?

[*diet; tynnu llun; gwaith drama, dawn, canu / cyngherddau; gwasanaethau boreol; nofio; gwisg; teithiau addysgol / crefyddol ...*]

Gwybodaeth ieithyddol:

Ieithoedd a siaredir gartref gan y disgybl gyda:

mam _____ tad _____ brodyr/chwiorydd _____

teulu estynedig (e.e. nain a taid) _____

ATODIAD 4: SIY o fewn y Fframwaith Arolygu Cyffredin a Hunan Arfarnu Ysgol Gyfan

gweler: 'Arweiniad atodol ar arolygu cydraddoldeb hiliol, hyrwyddo perthynas dda a Saesneg fel iaith ychwanegol', ESTYN

Cwestiynau Allweddol mewn perthynas â Saesneg fel iaith Ychwanegol:

- A oes polisi ysgol gyfan ar gyfer cefnogi disgyblion sy'n dysgu'r Saesneg fel iaith ychwanegol, ac os felly, a ydyw'n cael ei weithredu'n gyson?
- A yw'r amgylchedd yn groesawgar i'r disgyblion y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt?
- A yw'r athrawon yn defnyddio gwybodaeth am yr ieithoedd sy'n cael eu siarad gan y disgyblion?
- A yw'r disgyblion y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt yn cael mynediad llawn i'r cwricwlwm?
- A oes unrhyw athrawon o'r brif ffrwd wedi ymgymryd â hyfforddiant i'w helpu i ddeall anghenion dysgu'r disgyblion y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt?
- Pa mor agos yw'r cyswllt rhwng athrawon Saesneg fel iaith ychwanegol ac athrawon y brif ffrwd?
- Sut caiff gwersi yn nosbarthiadau'r brif ffrwd a, lle bo'n berthnasol, yn ystod unrhyw sesiynau tynnu'n ôl, eu strwythuro i fodloni anghenion penodol y disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol?
- A yw'r ysgol yn olrhain llwyddiant ei ddarpariaeth Saesneg fel iaith ychwanegol trwy arfarnu cyraeddiadau'r disgyblion ac a yw'n defnyddio'r wybodaeth i nodi targedau ar gyfer gwelliant?
- A yw'r ysgol yn defnyddio'r iaith gyntaf i gefnogi dysgu?
- Sut mae'r ysgol yn bodloni anghenion y disgyblion y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt pan nad oes cymorth addysgu ar gael?
- A yw'r ysgol yn darparu cyfieithiadau o lythyrau ysgol a dogfennau mewn ieithoedd cymunedol? Os nad ydyw, sut mae'n cyfathrebu â'r rhieni sydd heb lawer o Gymraeg/Saesneg?
- A yw'r ysgol yn deall yn llwyr na ddylid ystyried bod diffyg hyfedredd yn y Saesneg yn gyfystyr ag anawsterau dysgu?
- Sut mae'r ysgol yn asesu anghenion y disgyblion y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt pan amheuir hefyd bod ganddynt anghenion addysgol arbennig?